# Cefnogi cleientiaid i adolygu cynlluniau gweithredu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo cleientiaid trwy roi cyngor ac arweiniad i adolygu eu cynlluniau gweithredu cyflawniad. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd i gleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau megis gwasanaethau cyhoeddus, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd a'r rhai sy'n cael eu darparu gan weithwyr lles proffesiynol ac eraill.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. darparu cyfleoedd i gleientiaid adolygu cynnydd a chyflawniadau'r camau gweithredu sydd ar waith 2. cadarnhau'r camau gweithredu a gymerwyd, mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion cleientiaid 3. adolygu amcanion allweddol a chyfnodau'r camau gweithredu gyda'r cleient 4. cytuno gyda chleientiaid ar yr amcanion a gyflawnwyd, a'r rhai na chyflawnwyd 5. adolygu addasrwydd y dulliau a ddefnyddir gan gleientiaid i roi'r camau gweithredu ar waith, yn unol ag arfer da cydnabyddedignodi materion a wynebwyd wrth roi'r camau gweithredu ar waith 6. darparu cyfleoedd addas i gleientiaid gasglu adborth am gynnydd 7. cydymffurfio â'r holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol yng nghyswllt cynorthwyo cleientiaid i adolygu cyflawniad cynlluniau gweithredu 8. cofnodi rhyngweithiadau, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol sy'n berthnasol i'ch rôl 2. deddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol mewn perthynas â rôl y swydd/y gweithgareddau a gynhaliwyd 3. gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut mae eu haddasu at anghenion a dewisiadau'r cleientiaid 4. modelau perthnasol o arfer da ar gyfer cynorthwyo cleientiaid i adolygu eu cyflawniadau 5. gweithdrefnau ar gyfer adolygu cynnydd, gan gynnwys;pa mor aml dylid adolygu cynnydd a chyflawniadau 6. sut mae canfod y camau gweithredu a gymerwyd 7. sut mae adolygu'r amcanion a'r cyfnodau allweddol 8. sut mae nodi'r cyflawniadau 9. beth yw'r arwyddion nad yw'r amcanion wedi cael eu cyflawni 10. y dulliau a ddefnyddir ar gyfer rhoi gwahanol gamau gweithredu ar waith 11. pam gallai dulliau gwahanol fod yn addas ar gyfer cleientiaid a pha fathau o broblemau y gall cleientiaid ddod ar eu traws wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau 12. sut mae asesu effeithiolrwydd gwahanol ddulliau 13. y mathau o faterion a allai godi, y camau i'w cymryd i ymdrin â hwy, a goblygiadau peidio â gwneud hynny 14. sut mae casglu gwybodaeth am y gofynion ar gyfer adolygu cynlluniau gweithredu 15. pa fathau o adborth y dylid eu darparu 16. gofynion cofnodi eich sefydliad, gan gynnwys sut mae storio gwybodaeth a gofnodwyd yn ddiogel

Cefnogi cleientiaid i adolygu cynlluniau gweithredu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Chwef 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau ar gyfer Gofal a Datblygiad |
| **RCU gwreiddiol** | SFD419 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithwyr Proffesiynol ym maes Addysgu, Ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac Arbenigwyr Cyfarwyddyd Galwedigaethol, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Paratoi ar gyfer Gwaith, Gweithwyr canolfan alwadau/gyswllt, Gweithwyr proffesiynol ym maes lles, Ymgynghorwyr addysg ac arolygwyr ysgolion, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol |
| **Cyfres/Set** | Cyngor Cyfreithiol, Cyngor ac Arweiniad, Gwasanaethau Cynnal Datblygiad Dysgu (adolygwyd yn 2009) |
| **Geiriau Allweddol** | cyngor; cymorth; cyflawniad |